Cyfran Gyfnodol

Beth yw cyfran gyfnodol

Pan fyddwch chi'n prynu cyfran gyfnodol, rydych chi'n prynu'r **hawl i ddefnyddio llety gwyliau** am **gyfnod penodol o amser bob blwyddyn**. Fel arfer **fila mewn cyrchfan gwyliau** ydyw'r llety, ond fe allwch chi gael cyfrannau cyfnodol hefyd mewn carafanau, bythynnod, fflatiau a chychod. Mae'r ffordd yr ydych yn talu am gyfran gyfnodol yn amrywio, ond fel arfer rydych chi'n talu un swm ar ei ben ei hun ac yna taliadau cynnal a chadw blynyddol.

Mae'r gyfraith yn amddiffyn cytundebau cyfran gyfnodol sy'n para o leiaf blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyfnod ail-feddwl.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymwneud â'ch hawliau chi os brynwch chi gyfran gyfnodol oddi wrth gwmni, ond **nid** os prynwch chi oddi wrth unigolyn preifat. Os ydych yn prynu oddi wrth unigolyn preifat, nid yw deddfau cyfran gyfnodol yn eich amddiffyn.

Cyn arwyddo cytundeb cyfran gyfnodol

Pan fyddwch chi'n prynu cyfran gyfnodol, rydych chi'n arwyddo **cytundeb sy'n clymu'r ddwy ochr** gyda chwmni cyfran gyfnodol. Gall fod yn anodd canslo'r cytundeb, ac felly mae'n bwysig eich bod yn cael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl cyn i chi arwyddo, gan gynnwys manylion am**:**

- **y costau llawn,** yn cynnwys taliadau am bethau fel ffioedd cyfreithiol, nwy, trydan a dŵr, taliadau rheoli a chynnal a chadw blynyddol. Gofynnwch hefyd beth sy'n gynwysedig yn y taliadau hyn, sut y cyfrifir hwy ac ar ba sail y gellid eu cynyddu yn y dyfodol**;** *a*
- **hyd y cytundeb;** *a*
- **sut le ydyw'r gyrchfan gwyliau**. Os ydyw'n dal i gael ei adeiladu, gwiriwch fod caniatâd cynllunio wedi'i ganiatáu. Hefyd gwiriwch faint y datblygiad a faint o waith sydd ar ôl i'w gwblhau; *a*
- **y math o berchnogaeth fydd gennych** ac os fyddwch chi'n berchen yr hawl i'r eiddo a diddordeb yn y tir y gellir ei werthu neu ei adael mewn ewyllys, er enghraifft (mae hyn yn anarferol)**;** *a*
- **telerau ac amodau'r** cytundeb; *a*
- **pwy sy'n gyfrifol** am **gynnal y gyrchfan o ddydd i ddydd** ac am **gynnal a chadw'r eiddo;** *a*
- os oes **pwyllgor** neu **gymdeithas perchnogion** yn bodoli a pha **bwerau** sydd ganddo, er enghraifft, os ydyw'n gallu diswyddo'r cwmni rheoli.

Ffactorau i'w hystyried

- Ydych chi am y math yma o wyliau bob blwyddyn?
- Ydy e'n werth am arian? Peidiwch ag anghofio nad yw cost y teithio i'r

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gyrchfan yn gynwysedig.
- Chwiliwch am y fargen orau
- Gofynnwch am bamffled
- Mynnwch gael yr holl fanylion yn ysgrifenedig. **Peidiwch â dibynnu ar addewidion ar lafar yn unig**. Peidiwch â chael eich temtio gan roddion am ddim a gynigir fel cymhelliant.

Canslo Cytundeb Cyfran Gyfnodol

Unwaith y byddwch chi wedi arwyddo cytundeb cyfran gyfnodol, mae'r gyfraith yn rhoi **14 diwrnod o gyfnod ail feddwl** i chi, ac yn ystod y cyfnod hwn fe allwch chi **ganslo'ch cytundeb** a chael **eich arian yn ôl** heb orfod talu ffi canslo. Ni ddylid gofyn i chi am fwy o arian yn ystod y cyfnod ail feddwl. Mae gennych hawl i gyfnod ail feddwl dim ond os yw'r gyfran gyfnodol yn **parhau am o leiaf blwyddyn** a'i bod ar gyfer **eiddo, carafán** neu gwch yn **Ardal Economaidd Ewrop (EEA)**.

Cyn Chwefror 23 2011, dim ond os oedd y cytundeb cyfran gyfnodol am o leiaf tair blynedd y byddech yn cael cyfnod ail feddwl.

Mae'n **rhaid** i werthwyr cyfran gyfnodol yn y DU a'r EEA ddweud wrthych am y cyfnod ail feddwl a rhoi ffurflen ganslo i chi pan ydych yn llofnodi'r cytundeb. Os nad ydynt yn dweud wrthych, bydd y cyfnod ail feddwl yn cael ei ymestyn **i flwyddyn a 14 diwrnod ac os nad ydych yn derbyn ffurflen ganslo, ni all y gwerthwr cyfran gyfnodol orfodi'r cytundeb yn eich erbyn.**

Ar ôl y cyfnod ail feddwl fe allwch chi **ganslo'r** cytundeb os ydyw **telerau'r cytundeb yn caniatáu** hynny. Os ydych chi am **werthu eich cyfran gyfnodol**, efallai y gall cwmni cyfran gyfnodol ail werthu neu'r cwmni cyfran gyfnodol eich helpu i drefnu hyn, er y byddan nhw'n hawlio comisiwn oddi wrthych.

Eich dewis o gamau i'w cymryd os oes problemau gyda'ch cyfran gyfnodol

Gwneud cwyn

Cysylltwch â'r cwmni cyn gynted â phosibl. Ysgrifennwch at y rheolwr a chadwch gopi o'r llythyr. Esboniwch eich problem yn gadarn ac yn bwyllog, gan nodi eich dymuniadau, sef **canslo'r cytundeb** neu **iawndal**. Peidiwch â gofyn am rywbeth nad oes hawl gennych i'w dderbyn.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb ac os yw'r gyfran gyfnodol yn Ewrop, darganfyddwch os yw'n aelod o **Fudiad Datblygu Cyrchfannau (RDO)**. Mae'r RDO yn gweithredu gweithdrefn gwyno a gwasanaeth cymodi i helpu i ddatrys anghydfodau. Os ydych yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, bydd unrhyw benderfyniad yn gyfreithiol rhwym ac fe fydd yn debygol o'ch atal rhag cymryd camau yn y llys. Rhowch glic ar eu gwefan: www.rdo.org <http://www.rdo.org>.

Os ydych yn penderfynu peidio â defnyddio'r gwasanaeth cymodi,

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ysgrifennwch at berchennog/reolwr y cwmni gan ailadrodd eich cwyn a'r camau yr ydych wedi'u cymryd hyd yn hyn. Nodwch eich bod yn rhoi pedwar diwrnod ar ddeg iddynt ddatrys y broblem, neu byddwch yn ystyried cymryd camau yn y llys. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i brif swyddfa'r cwmni, os oes un. **Cadwch gopïau** o bob llythyr a nodiadau am unrhyw sgyrsiau dros y ffôn gawsoch mewn cysylltiad â'ch problem.

Os ydyw'r cwmni yn rhoi cynnig i chi, fe allwch naill ai dderbyn neu barhau i **drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn yr ydych yn fodlon ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.

Cwynwch i'r Gymdeithas Defnyddwyr Cyfran Gyfnodol

Gall cymdeithas Defnyddwyr Cyfran Gyfnodol gynnig help a chyngor arbenigol os oes angen gwybodaeth am gyfran gyfnodol arnoch neu ddatrys problem. Fe allwch gysylltu â'r Gymdeithas ar 01909 591100, neu edrych ar eu gwefan yn - www.timeshare.org.uk

Cwynwch i Cyswllt Defnyddwyr

Gallai fod yn drosedd os ydych yn prynu cyfran gyfnodol mewn gwlad EEA ac:

- nid ydych wedi derbyn y wybodaeth allweddol am y cytundeb, neu
- mae'r gwerthwr yn cymryd arian oddi wrthych yn ystod y cyfnod ail feddwl, neu
- mae'r gwerthwr yn gwneud honiadau ffug neu gamarweiniol am y gyfran gyfnodol. Gallai hyn gynnwys honiad bod cyfran gyfnodol yn fuddsoddiad, neu
- mae'r gwerthwr yn rhoi pwysau arnoch i lofnodi cytundeb,
- mae'r gwerthwr yn cynnig gwobr sydd werth llai na gafodd ei addo neu dim ond os ydych yn gwneud taliad y gallwch gasglu'r wobr.

Os yw un o'r rhain yn gymwys i'ch sefyllfa chi, cysylltwch â Cyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Cwynwch i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)
Mae'n rhaid i bob hysbyseb sy'n ymddangos yn y DU gydymffurfio â Chodau Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiannau a Marchnata Uniongyrchol Prydain, sy'n dweud bod yn rhaid i hysbysebion fod yn gyfreithlon, gweddus, gonest a chywir. Os yw hysbyseb yn disgrifio cyfran gyfnodol mewn ffordd gamarweiniol, gallech gwyno i ASA. Cyfeiriad eu gwefan yw www.asa.org.uk.

Mynd i'r llys
Os nad yw'r cwmni cyfran gyfnodol yn ymateb i'ch cwyn, yn gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n cyflwyno cynnig terfynol i chi nad ydych yn fodlon ei dderbyn, eich unig opsiwn arall yw mynd i'r llys.

Cofiwch mai eich dewis olaf yw mynd i'r llys. Cyn cymryd camau yn y llys, mae'n rhaid i chi ystyried p'un ai bod gennych **dystiolaeth** ddigonol ac **ym mha wlad** y bydd angen i chi gyflwyno'ch achos. Hefyd, mae'n rhaid i chi ddarganfod p'un ai bod y cwmni yn **abl i dalu**. Nid oes pwynt erlyn rhywun sydd heb arian.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych wedi colli arian ar gyfran gyfnodol, peidiwch â gwastraffu rhagor o arian ar achos na allwch ei ennill.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credyd
- Dechrau Achos Ilys

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 11 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio cywirdeb y wybodaeth sydd arni. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr